| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD: | **9 CHWEFROR 2026** |
| TEITL: | **ADOLYGU AMCANION STRATEGOL AR GYFER YMGYNGHORWYR BUDDSODDI'R GRONFA** |
| PWRPAS: | **Adrodd ar gynnydd yn erbyn amcanion cyfredol a nodi amcanion y dyfodol** |
| ARGYMHELLIAD: | **NODI CYNNYDD AC AMCANION Y DYFODOL** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'n ymarfer da i Ymddiriedolwyr Cronfeydd Pensiwn osod amcanion i'w hymgynghorwyr buddsoddi ac mae'r amcanion yma yn cael eu gosod a'u diweddaru bob blwyddyn.

## 2. GOSOD AMCANION I YMGYNGHORWYR BUDDSODDI

Dylai amcanion ar gyfer ymgynghorwyr gynnwys diffiniad clir o'r canlyniad a ddisgwylir, a dylent:

- fod wedi'u cysylltu yn agos gydag amcanion strategol y gronfa bensiwn
- cael eu hadolygu o leiaf bob tair blynedd, ac ar ôl pob newid sylweddol i'r strategaeth fuddsoddi neu amcanion

Mae sefydlu amcanion tymor hir yn rhan o drefniadau llywodraethu da. Mae'r estyniad o osod amcanion i ymgynghorwyr buddsoddi yn gallu cael ei ystyried fel dilyniant naturiol i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn anelu tuag at yr un nod.

## 3. AMCANION CRONFA BENSIWN GWYNEDD I YMGYNGHORWYR BUDDSODDI

Mae amcanion Cronfa Bensiwn Gwynedd yn Atodiad 1, gydag adroddiad cynnydd yn erbyn yr amcanion yn ystod 2025.

## 4. AMCANION Y DYFODOL

Mae amcanion y dyfodol wedi eu nodi yn Atodiad 2. Maent yn parhau i fod yn weddol debyg ond wedi amlygu bydd angen cyd-weithio gyda cwmni buddsoddi newydd Partneriaeth Pensiwn Cymru sef WPP IM Co.

## 5. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad cynnydd ac amcanion yr Ymgynghorwyr Buddsoddi am y cyfnod nesaf.